

Monmouthshire Select Committee Minutes

Meeting of Pwyllgor Perfformiad a Throsolwg held at The Council Chamber, County Hall, Rhadyr, Usk, NP15 1GA with remote attendance on Dydd Mawrth, 3ydd Rhagfyr, 2024 at 10.00 am

Councillors Present

County Councillor Alistair Neill, (Chair)
County Councillor Rachel Buckler, (Vice Chair)

County Councillors: Jill Bond, John Crook,
Steven Garratt, Meirion Howells, Paul Pavia,
Peter Strong, Maureen Powell

Also in attendance County Councillors: Ben
Callard, Ian Chandler and Martyn Groucott

Officers in Attendance

Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu
Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu
Peter Davies, Prif Swyddog, Adnoddau
Will Mclean, Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc
Richard Jones, Rheolwr Perfformiad a Dirnadaeth
Data
Matthew Gatehouse, Pennaeth Polisi a
Llywodraethiant
Jonathan Davies, Rheolwr Cyllid Cyfrifeg Canolog
Tyrone Stokes, Rheolwr Cyllid
Stacey Jones, Uwch Gyfrifydd
Dave Loder, Rheolwr Cyllid
Diane Corrister, Rheolwr Gwasanaeth Diogelwch a
Sicrwydd Ansawdd
Jenny Jenkins, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion

APOLOGIES: Councillors Ann Webb

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Ann Webb, Maureen Powell fel eilydd.

2. Datganiadau o Fuddiant

Dim.

3. Diweddariad Ariannol

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Ben Callard a Jonathan Davies yr adroddiad ac atebodd gwestiynau'r aelodau gyda'r Aelod Cabinet Ian Chandler, Nikki Wellington a'r Aelod Cabinet Martyn Groucott.

- Gofynnodd aelod am y camau sy'n cael eu cymryd gan y weinyddiaeth i atal dirywiad ariannol pellach a sicrhau adferiad cynaliadwy, gan fynd i'r afael â materion strwythurol fel diffygion cynyddol ysgolion a gwasanaethau sydd wedi'u tanariannu. Ymatebodd yr Aelod Cabinet fod y diffyg tua 2% o'r gyllideb refeniw. Maen nhw'n gweithio gydag ysgolion trwy gynlluniau adfer i reoli'r sefyllfa'n raddol. Mae'r weinyddiaeth hefyd yn edrych ar feysydd eraill o'r awdurdod i gefnogi galw cynyddol mewn ieuchyd a gofal cymdeithasol. Tynnodd sylw at y ffaith bod y Cyngor yn gweithio ar ystod o fesurau, gan gynnwys gweithredu rhaglen newid i fynd i'r afael â darparu gwasanaethau dros y tymor canolog i'r tymor hir; gweithio gydag ysgolion ar gynlluniau adfer i reoli diffygion yn raddol

heb achosi sioc i'r system; canolbwyntio ar liniaru costau yn hytrach nag arbedion uniongyrchol, gydag ymdrechion i reoli gwasanaethau drws ffrynt a rheoli pecynnau gofal yn effeithiol; gwella mesurau craffu ariannol a chynnal disgyblaeth ariannol ar draws yr holl wasanaethau.

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y risg ariannol a'r mesurau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r diffyg cyllidebol. Esboniodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol fod y risg ariannol yn eilradd i'r risg o niwed a bod y Cyngor yn gwario'r arian sydd ei angen i ddarparu gofal, a dyna pam mae gorwariant mewn gofal cymdeithasol. Esboniodd eu bod yn gweithredu mesurau i reoli'r sefyllfa, gan gynnwys rheoli'r drws ffrynt a sicrhau bod pobl yn cael gofal mewn ffordd sy'n rheoli eu hamgylchiadau.
- Gofynnodd y Cadeirydd am y cysondeb rhwng Risgiau 7 ac 8 yn y Gofrestr Risg sy'n nodi'r risg o niwed i blant ac oedolion, a dull y cyngor o leihau gorwariant. Eglurodd yr Aelod Cabinet nad yw'r risg yn ymwneud â'r arian sy'n cael ei wario, gan ei fod yn cael ei wario, ac felly'r gorwariant o £4m mewn gofal cymdeithasol. Tynnodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol sylw at yr ymdrechion i reoli gofal yn y camau cychwynnol i atal pecynnau cost uwch. Mae'r risg ariannol yn cael ei ystyried yn eilradd i'r risg o niwed, gyda'r prif ffocws ar atal niwed diangen i blant ac oedolion.
- Gofynnodd aelod am nifer yr ysgolion sy'n agos at ddiffyg a pham mae gan Ysgol Gynradd Pembroke ddiffyg uwch nag eraill. Dywedodd swyddogion fod diffygion pob ysgol wedi'u hamlinellu yn Atodiad 3 o'r adroddiad a bod diffyg uwch Ysgol Gynradd Pembroke oherwydd newidiadau diweddar mewn staffio ac incwm anghenion dysgu ychwanegol sydd wedi'i ddyrannu i gefnogi disgyblion.
- Gofynnodd aelod am fod yn greadigol gydag adnoddau, gan sôn yn benodol am enghraifft Ysgol Parc y Castell a'r defnydd o adnoddau ar brosiectau nad ydynt efallai yn angenrheidiol ar hyn o bryd. Ymatebodd yr Aelod Cabinet, er bod y Cyngor yn gweithio'n galed i wneud y mwyaf o'r defnydd o'r adnoddau sydd ar gael, mae rhywfaint o arian yn cael ei ddyrannu'n benodol ar gyfer rhai prosiectau, fel teithio llesol, ac ni ellir ei ailgyfeirio. Soniwyd hefyd bod gweinyddu'r cynlluniau hyn yn cael ei gynnwys o fewn y cyllid a ddarperir.
- Gofynnwyd cwestiwn am berfformiad canolfannau hamdden, yn benodol yr aelodaeth mewn perthynas â phob tref a'r sefyllfa gyda Pharc Hamdden Casnewydd a Phorth y Castell. Nododd yr Aelod Cabinet fod MonLife yn perfformio'n dda a bod data aelodaeth ar gael ar gyfer pob canolfan, gan gydnabod mai Cil-y-coed yw'r aelodaeth isaf a bod y Cyngor yn anelu at wella cyfleusterau ar draws pob canolfan. O ran Parc Hamdden Casnewydd a Phorth y Castell, soniodd fod Parc Hamdden Casnewydd yn perfformio'n ddigonol, tra bod Porth y Castell yn parhau i fod yn ased heriol i'w reoli, ond mae ymdrechion yn parhau i gynyddu'r defnydd. – **CAM GWEITHREDU: darparu ymateb ysgrifenedig fanwl ynglŷn ag: aelodaeth a buddsoddiadau canolfannau hamdden**
- Gofynnwyd faint o ysgolion eraill fydd mewn diffyg yn y blynyddoedd i ddod. Esboniodd y swyddog ei bod hi'n rhy gynnar i ddweud. Mae'r tîm yn gweithio trwy'r cyllidebau gydag ysgolion nawr, ac unwaith y bydd y cyllidebau 25-26 wedi'u gosod, bydd rhagolygon yn cael eu gwneud gyda'r ysgolion. Ar y cam hwn, mae swyddogion yn monitro yn fisol.
- Gofynnodd y Cadeirydd sut mae ysgolion yn rheoli diffygion h.y. pwy sy'n darparu cyllid pontio i'r flwyddyn ganlynol. Esboniodd swyddogion fod ysgolion yn rheoli eu cyllidebau yn annibynnol, gyda phenaethiaid a byrddau llywodraethu yn gyfrifol am gymeradwyo a rheoli. Fodd bynnag, mae unrhyw ddiffyg yn cael ei amsugno gan fantolen y Cyngor, gan effeithio ar wydnwch ariannol cyffredinol y Cyngor. Felly, mae'n hanfodol monitro a chefnogi cynlluniau adfer cyllideb ysgolion. Mae ymdrechion sylweddol yn cael eu gwneud i ymgysylltu ag ysgolion mewn diffyg, gan sicrhau trafodaethau a monitro parhaus.
- Ceisiwyd eglurder sut y gall Parc Hamdden Casnewydd a Phorth y Castell fod yn 'sefyll eu tir' os oes ganddynt orwariant? Ymatebodd yr Aelod Cabinet nad yw'r safleoedd yn profi gorwariant ond yn hytrach diffyg incwm disgwylidig. Er enghraifft, pe bai'r incwm a

ragwelir yn £1m ond yr incwm gwirioneddol yn £950 mil, byddai'n ymddangos fel £50 mil negyddol yn y gyllideb. Mae'r diffyg hwn oherwydd rhagamcanion incwm gor-optimistaidd, nid effaith negyddol wirioneddol ar y fantolen.

- Gofynnwyd cwestiwn am y mesurau sy'n cael eu cymryd i liniaru costau addysgu cyflenwi mewn ysgolion, ac ymatebodd yr Aelod Cabinet fod costau addysgu cyflenwi yn bwysau sylweddol ar gyllidebau ysgolion a bod y Cyngor yn canolbwyntio ar y maes hwn, ac mae darn o waith yn cael ei wneud gan yr archwilydd i helpu i gefnogi ysgolion i reoli'r costau hyn.
- Holodd y pwyllgor a yw'r cynnydd mewn costau gofal cartref yn gysylltiedig â gwelliannau yn y bwrdd iechedd sy'n lleihau blocio gwelyau, a gofynnodd hefyd a oes risg o gynnydd pellach ac a ellid ceisio cyllid ychwanegol gan y bwrdd iechedd. Yr esboniad a roddwyd oedd bod cynnydd o 10% wedi bod mewn pecynnau gofal cartref a gomisiynwyd yn allanol, gan arwain at gost ychwanegol o £500 mil. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, er bod pwyslais ar wella llwybrau gofal i gael pobl allan o ysbytai, mae hyn yn trosglwyddo'r baich ariannol i awdurdodau lleol. Mae trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru yn parhau i fynd i'r afael â'r mater hwn.
- Gofynnwyd cwestiwn am y dadansoddiad o leoliadau plant a pha fesurau sy'n cael eu cymryd i adolygu ac atal toriadau yn y dyfodol. Yr ymateb a roddwyd oedd bod pob achos o ddadansoddiad lleoliad yn cael ei adolygu i ddeall y rhesymau, a all gynnwys newidiadau yn anghenion y plentyn neu amgylchiadau'r lleoliad maeth. Nod y Cyngor yw gosod plant yn yr amgylchedd gorau posibl ac mae'n adolygu ac yn dysgu o bob achos yn barhaus i wella lleoliadau yn y dyfodol.
- Gofynnodd aelod am y Bwrdd Iechyd yn osgoi ei gyfrifoldebau am ddarparu gofal sy'n seiliedig ar iechedd, gan ofyn a ddylid ystyried camau cyfreithiol neu adolygiad barnwrol i fynd i'r afael â'r pryder hwn. Esboniodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, os yw angen gofal sylfaenol person yn gysylltiedig ag iechedd, dylai'r Bwrdd Iechyd ei ariannu, nid yr awdurdod lleol. Mae anghydfodau parhaus gyda'r Bwrdd Iechyd dros sawl achos, yn enwedig y rhai lle nad yw'n glir a yw'r prif angen yn feddygol neu ofal personol. Er nad yw camau cyfreithiol neu adolygiad barnwrol wedi'u dilyn eto, nid yw wedi'i ddiystyru. Mae diffyg cyllideb sylweddol y Bwrdd Iechyd yn cymhlethu trafodaethau. Y nod yw sicrhau bod unigolion yn derbyn gofal yn llyfn, waeth pwy sy'n talu amdano. Mae'r awdurdod lleol yn parhau i ddarparu gofal wrth drafod cyfrifoldebau cost, er nad yw'r sefyllfa'n ddelfrydol.
- Yng ngoleuni'r penderfyniad gan Flaenau Gwent a Thorfaen i rannu un Prif Swyddog Gweithredol, holwyd a fu unrhyw drafodaethau gyda nhw yn ystod eu cyfnod darganfod i archwilio cyfleoedd ar gyfer cydweithio pellach, gyda'r nod o geisio effeithlonrwydd, gwneud y gorau o adnoddau, ac ati. Ymatebodd y swyddog fod trafodaethau wedi bod gydag awdurdodau cyfagos a'r rhanbarth ehangach ynglŷn ag archwilio cyfleoedd ar gyfer cydweithio pellach. Mae'n bwysig trafod yr opsiynau hyn yn weithredol, ond mae'n rhaid i ni gofio'r gwahaniaethau unigryw ar draws daearyddiaeth a demograffeg yn Sir Fynwy. Er bod datblygiadau digidol a thechnolegol yn cynnig cyfleoedd newydd ar gyfer cydweithio, mae'n hanfodol bod yn rhan o'r sgysiau hyn o'r dechrau i sicrhau aliniad ac effeithiolrwydd.
- Gofynnodd aelod am eglurhad ar statws prosiect Ysgol Gynradd Parc y Castell, yn benodol ynglŷn â dyrannu arian Adran 106 a'r materion sydd wedi gohirio'r prosiect. Eglurodd yr Aelod Cabinet dros Addysg fod cynlluniau ar gyfer y prosiect yn cael eu llunio ac y bydd yn cael eu cwblhau erbyn diwedd mis Rhagfyr. Eglurodd fod y prosiect yn wynebu oedi oherwydd darganfod paneli asbestos y bu'n rhaid eu trin, ond bod y prosiect bellach yn ôl ar amser, a bydd amserlen i'w chwblhau cael ei sefydlu ym mis Ionawr.
- Nodwyd gwall geiriad yn Atodiad 1: ym mharagraff gwaelod Adran 2, dylai 'Lleoliadau Gofal yn y Cartref' fod yn 'Lleoliadau cartrefi gofal'. Nododd y Cadeirydd hefyd deipio yn rhifo'r adrannau yn yr adroddiad clawr.

- Holodd y pwyllgor am y £2.3m mewn taliadau dyledion gofal cymdeithasol nad ydynt wedi'u hadennill, gan ofyn am fanylion am y swm adennill disgwylledig, y prosesau ar gyfer casglu'r ddyled hon, a mesurau i atal cronni dyled o'r fath yn y dyfodol. Esboniodd yr Aelod Cabinet fod y Cyngor wedi cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer dyled ddrwg gan £20 mil, gan adlewyrchu'r swm nad ydyn nhw'n disgwyl ei adennill. Dywedodd swyddogion fod y tîm cyllid yn gweithio'n agos gyda theuluoedd a chynrychiolwyr i sicrhau bod asesiadau ariannol yn cael eu gwneud o flaen llaw a bod y Cyngor yn cymryd cyngor cyfreithiol pan fo angen, ac yn canolbwyntio ar wella'r broses gasglu i reoli'r ddyled hon yn effeithiol.
- Gofynnodd aelod am y gorwariant anghenion dysgu ychwanegol (ADY) o £510 mil, yn benodol yn ceisio dealltwriaeth o'r gorwariant o £256 mil ar ddechreuwr newydd mewn ysgolion annibynnol, ac unrhyw waith sy'n cael ei wneud i adnabod achosion tebyg yn gynharach. Esboniodd swyddogion fod y gorwariant oherwydd disgyblion a oedd yn disgwyl iddynt adael yr ysgol ond sydd wedi parhau â'u haddysg, a dechreuwr newydd yn cael eu haddysg heblaw yn yr ysgol, ac mae angen pecynnau cymorth pwrpasol. Mae'r gorwariant o £256 mil ar ddechreuwr newydd mewn ysgolion annibynnol oherwydd disgyblion newydd yn dod i'r sir nad oedd eu disgwyl.
- Gofynnodd y Cadeirydd sut mae'r Cyngor yn bwriadu rheoli'r gorwariant cynyddol, o ystyried y rheol yn erbyn defnyddio cronfeydd wrth gefn, ac a fydd angen cymorth allanol. Ymatebodd yr Aelod Cabinet fod y Cyngor yn bwriadu rheoli'r gorwariant cynyddol trwy ei wrthbwyso gyda pherfformiad rhagorol mewn gwasanaethau eraill, a ystyrir fel rheoli cyllideb effeithiol. Mae'r defnydd o enillion y Trysorlys yn cael ei ystyried yn offeryn dilys i amddiffyn gwasanaethau, hyd yn oed os ydynt yn y tymor byr. Nod y Cyngor yw osgoi defnyddio cronfeydd wrth gefn ar gyfer gwariant rheolaidd. Mae'r gorwariant wedi cynyddu ychydig o dan £1m o Fis 3 i Fis 6 ond disgwylir iddo ostwng tua diwedd y flwyddyn. Mae posibilrwydd o chwistrelliad cyllid o gyllideb y llywodraeth ym mis Hydref, ac mae'r Cyngor yn mynd ar drywydd mesurau adfer cyllideb yn ystod y flwyddyn i leihau'r gorwariant ymhellach.
- Gofynnodd y Cadeirydd a ydym mewn trafodaethau gydag archwilwyr ynghylch sut y byddai ein gwydnwch ariannol yn cael ei effeithio, pe bai angen i ni dynnu £5m allan o gronfeydd wrth gefn. Eglurodd y swyddog fod Sir Fynwy wedi cael ei archwilio gan Archwilio Cymru ynglŷn â'n cynaliadwyedd ariannol, ac roedd y dyfarniad yn weddol gadarnhaol. Tynnodd yr archwiliad sylw at yr angen am lwybr clir tuag at gynaliadwyedd ariannol, gan gydnabod y bwlch cyllideb dros y tymor canolig, y mae'r strategaeth ariannol tymor canolig yn anelu at fynd i'r afael ag ef. Os byddwn yn gorffen gyda diffyg ar y waelodlin ar ddiwedd y flwyddyn, bydd angen iddo ddod o gronfeydd wrth gefn, gan leihau ein gwydnwch ariannol. Fodd bynnag, mae cyllideb awdurdod lleol yn gymhleth ac yn newid yn gyson, felly mae hyblygrwydd a rheoli trysorlys effeithiol yn hanfodol. Ein nod yw gwneud y defnydd gorau o'n harian parod i gefnogi darparu gwasanaethau a lleihau costau benthyca.

Crynodeb y Cadeirydd:

Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu cwestiynau. Ailadroddodd nad oes atebion hawdd i'r heriau sy'n cael eu hwynebu ledled y sir, a diolchodd i Aelodau'r Cabinet a'u swyddogion am eu hadroddiad a'u hymatebion. Cynigiwyd yr adroddiad.

4. Diweddariad ar y Gofrestr Risg

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Ben Callard yr adroddiad ac atebodd gwestiynau'r aelodau gyda Richard Jones, Matthew Gatehouse a'r Aelod Cabinet Ian Chandler.

- Gofynnodd aelodau am y nifer uchel o risgiau (14 allan o 16) sy'n cael eu graddio fel uchel ac a yw'r lliniariadau yn effeithiol neu a ydyn nhw'n rhy ofalus. Fe wnaethant hefyd holi am risgiau annisgwyl a sut maent yn cael eu rheoli mewn cofrestrau risg adrannol. Esboniodd y swyddog fod y lefelau risg yn cael eu hasesu cyn lliniaru a bod y sgoriau ôl-liniaru yn adlewyrchu effaith ragweledig y camau lliniaru. Cydnabuwyd, er bod rhai risgiau yn parhau i fod yn uchel, mae'r Cyngor yn ofalus ac yn seilio ei asesiadau ar dystiolaeth a chyfeiriodd at gyflwyno Cofrestrau Risg y Gyfarwyddiaeth i reoli risgiau ar lefel fanylach.
- Gofynnodd aelodau a fyddai risgiau annisgwyl a heb eu rhagweld bellach yn cael eu hychwanegu at gofrestr risg pob cyfarwyddiaeth nawr a dywedwyd wrthynt, cymaint ag y gallant eu rhagweld a bod ganddynt dystiolaeth ar gyfer risgiau, y byddant yn cael eu cynnwys yng Nghofrestrau Risg y Gyfarwyddiaethau. Pwysleisiodd swyddogion fod risg yn faes sy'n newid yn barhaus, ac mae'r Cyngor yn anelu at gadw i fyny ag ef.
- Gofynnodd y pwyllgor ynglŷn â chynaliadwyedd ariannol a darparu gwasanaethau o ystyried y pwysau ariannol parhaus, gorwariant mewn gofal cymdeithasol, a diffygion addysgol. Fe wnaethant holi am feysydd allweddol lle gallai fod angen gweithredu pellach neu ddulliau amgen i gau'r bwlch. Cyfeiriodd swyddogion, wrth ymateb, at ddatblygu strategaeth ariannol tymor canolig a phroses monitro cyllideb newydd fel camau lliniaru allweddol, a hefyd rhaglen newid sy'n edrych ar sut mae'r Cyngor yn gweithredu yn y dyfodol.
- Gofynnwyd cwestiynau am heriau a chadw'r gweithlu, yn enwedig mewn gofal cymdeithasol ac addysg, ac a oes cynlluniau wrth gefn ar gyfer rolau neu sectorau risg uchel os yw mentrau'n cymryd mwy o amser i gynhyrchu canlyniadau. Esboniodd swyddogion ddatblygu strategaeth bobl newydd sy'n canolbwyntio ar recriwtio a chadw, gan gynnwys porth recriwtio a gwefan newydd i ddenu talent a chyfeiriodd at ddulliau rhagweithiol sy'n cael eu cymryd mewn gofal cymdeithasol i recriwtio gweithwyr cymdeithasol cymwysedig.
- Cododd yr aelodau'r galw a chymhlethdod cynyddol o achosion mewn gofal cymdeithasol i blant ac oedolion, a sut mae'r Cyngor yn sicrhau mesurau i fynd i'r afael â phroblemau posibl gweithlu a darparwyr yn y tymor canolig. Manylodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol nifer o fentrau, gan gynnwys strategaeth newydd ar gyfer lleoliadau plant, buddsoddiad mewn recriwtio gofalmwr maeth, a strategaeth gomisiynu newydd ar gyfer gofal cartref. Trafodwyd heriau demograffig sy'n gynyddol heneiddio, a'r angen am brosiectau hirdymor i ymestyn disgwyliad oes iach.
- Gofynnodd aelod a yw plant sy'n ymwneud â gofal bob amser yn cael eu rheoli i aros yn eu hardal a'u hysgol eu hunain, neu os oes rhaid iddynt gael eu symud i ffwrdd, ac ymatebodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, er mai'r uchelgais yw cadw plant yn lleol, nid yw bob amser yn bosibl oherwydd diffyg lleoliadau a gofalmwr maeth. Mae pob achos yn cael ei asesu'n annibynnol i benderfynu beth sydd er budd gorau'r plentyn, ac weithiau mae angen eu symud allan o'r ardal.
- Gofynnodd y Cadeirydd a oedd ymrwymiad polisi Llywodraeth Cymru i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal yn arwain at ansefydlogrwydd y farchnad, fel yr awgrymwyd yn yr adroddiad Risg blaenorol. Ymatebodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol fod polisi Llywodraeth Cymru i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal yn cael ei ymgorffori yn y bil lechyd a Gofal Cymdeithasol newydd, sy'n cael ei graffu yn y Senedd ar hyn o bryd. Mae'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol wedi egluro y bydd amserlenni gweithredu'r polisi hwn yn cael eu hymestyn i sicrhau sefydlogrwydd yn y farchnad. Mewn ymateb i'r polisi hwn, mae'r Cyngor yn cymryd camau i sefydlu ei gartrefi plant mewnol ei hun a llety â chymorth ôl-16 er mwyn lleihau dibyniaeth ar ddarparwyr masnachol, ac mae'n gweithio ar recriwtio mwy o ofalmwr maeth mewnol trwy adolygu ffioedd a lwfansau i wneud yr opsiwn hwn yn fwy deniadol. Mae'r sefyllfa yn cael ei monitro'n barhaus, heb unrhyw effeithiau mawr yn cael eu gweld ar hyn o bryd.
- Gofynnodd y Cadeirydd sut y gall lefelau risg fod yn is, e.e. Risg 2 i lawr o 16 i 12, o ystyried sefyllfa ariannol y Cyngor sy'n gwaethygu. Ymatebodd yr Aelod Cabinet fod

newidiadau parhaus i wasanaethau risg uchel yn cymryd amser i'w gweithredu. Er gwaethaf y sefyllfa ariannol sy'n gwaethygu, mae'r lefel risg wedi'i gostwng o 16 i 12 oherwydd sawl ffactor, gan gynnwys rhagolygon cadarnhaol cyllideb yr hydref ar gyfer gwariant gwasanaethau cyhoeddus a'r mesurau adfer cyllideb ac wrth gefn parhaus. Mae'r asesiad risg yn ystyried camau lliniaru presennol a dyfodol, ac mae'r sefyllfa yn cael ei monitro a'i adolygu'n barhaus.

- Gofynnodd y Cadeirydd a oedd polisi Llywodraeth Cymru i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal yn arwain at ansefydlogrwydd y farchnad, fel y rhagwelwyd. Ymatebodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol fod y polisi yn cael ei ymgorffori yn y bil lechyd a Gofal Cymdeithasol newydd, gydag amserlenni gweithredu estynedig i sicrhau sefydlogrwydd y farchnad. Mae'r Cyngor yn sefydlu cartrefi plant mewnol a llety â chymorth ôl-16, ac yn recriwtio mwy o ofalwyr maeth mewnol trwy adolygu ffioedd a lwfansau. Mae'r sefyllfa yn cael ei fonitro'n barhaus heb unrhyw effeithiau mawr yn cael eu nodi.
- Gofynnodd y Cadeirydd hefyd sut y gall lefelau risg fod yn is er gwaethaf sefyllfa ariannol y Cyngor sy'n dirywio. Esboniodd yr Aelod Cabinet fod newidiadau parhaus i wasanaethau risg uchel yn cymryd amser i'w gweithredu. Mae'r lefel risg wedi cael ei ostwng o 16 i 12 oherwydd ffactorau fel rhagolygon cadarnhaol cyllideb yr Hydref ar gyfer gwariant gwasanaethau cyhoeddus a mesurau adfer cyllideb parhaus. Mae'r asesiad risg yn ystyried camau lliniaru presennol ac yn y dyfodol, gyda monitro ac adolygiad parhaus.
- Cwestiynodd y pwyllgor y gallu o fewn yr adran Gofal Cymdeithasol i wireddu ac ymgymryd â'r gwaith o ad-drefnu modelau darparu gwasanaethau wrth ddelio â'r swydd ddydd, gan ofyn a yw'n bosibl symud ymlaen neu a fyddai angen cymorth allanol. Ymatebodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol fod y gallu ar lefel reoli i reoli newid wedi cael ei gywasgu, ond maen nhw wedi recriwtio rheolwr gwasanaeth newydd i reoli'r rhaglen leoli plant. Mae hyn wedi darparu capasiti ychwanegol ac wedi rhyddhau'r tîm rheoli o fewn gwasanaethau plant i weithio ar feysydd eraill.
- Cododd aelod y risg a'r soffistigedigrwydd cynyddol o ymosodiadau seiber gan actorion allanol a gangiau troseddol, yn enwedig yng nghyd-destun darparwyr gofal y gadwyn gyflenwi gofal cymdeithasol, gan holi a yw'r Cyngor yn gwneud digon i sicrhau bod eu cadwyni cyflenwi yn gadarn yn erbyn ymosodiadau seiber posibl. Ymatebodd swyddogion fod y Cyngor yn cyflogi pennaeth seiberddiogelwch sy'n cefnogi cyrff cyhoeddus eraill yn Ne-ddwyrain Cymru ac wrth ymrwymo i drefniadau cytundebol gyda chyflenwyr newydd, mae asesiad o'u trefniadau llywodraethu gwybodaeth yn rhan o'r broses. Cyngorwyd aelodau bod gan y Cyngor gefnogaeth ac arweiniad ar gael i gyflenwyr, ac mae ganddynt grwpiau llywodraethu gwybodaeth a systemau wrth gefn i leihau'r risg o ymosodiadau seiber.

Crynodeb y Cadeirydd:

Diolchodd y Cadeirydd i Aelodau'r Cabinet a swyddogion am eu hymatebion. Cynigiwyd yr adroddiad.

5. Cyllid Arweinyddiaeth Ysgolion Uwchradd

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Ian Chandler a Jane Rodgers yr adroddiad ac atebodd gwestiynau'r Aelodau.

- Gofynnodd aelod sut mae cyllideb cyfnod cynradd Ysgol Brenin Harri VIII yn ymwneud â chynradd eraill yn Sir Fynwy. Esboniodd y swyddog fod y cyllid ar gyfer cyfnod cynradd Ysgol Brenin Harri VIII yn cyfateb i gyllid ysgolion cynradd eraill o faint tebyg yn Sir Fynwy. Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethu yn gyfrifol am strwythuro'r tîm

arweinyddiaeth. Er bod y cyllid yr un peth, gallai arbedion posibl ddod o beidio â bod angen dau bennaeth, gan y gall yr ysgol edrych ar ei strwythur i nodi unrhyw arbedion posibl.

- Gofynnodd aelod am y mesurau sy'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau nad yw gostyngiadau mewn adnoddau arweinyddiaeth yn Ysgol Cas-gwent yn effeithio'n anghymesur ar grwpiau agored i niwed, gan gynnwys disgyblion sydd ag anableddau a'r rhai o gefndiroedd difreintiedig. Eglurwyd bod cyllid trosiannol wedi'i roi ar waith i sicrhau proses raddol i'r cyllid llai. Mae Ysgol Cas-gwent yn edrych ar ffyrdd o gefnogi eu dysgwyr yn fwy cost-effeithiol. Ar hyn o bryd mae gan yr ysgol y grŵp arweinyddiaeth mwyaf ymhlith y pedair ysgol uwchradd, ac maen nhw'n gweithio ar ailstrwythuro i reoli'r newidiadau cyllid.
- Gofynnwyd cwestiwn ynglŷn â sut mae effaith hirdymor y newidiadau hyn ar ganlyniadau'n cael ei fonitro, yn enwedig yng Nghas-gwent lle mae cyllid yn cael ei leihau'n sylweddol. Dywedodd y swyddog y bydd agweddau ariannol y newidiadau cyllid yn cael eu monitro'n agos, a bydd y canlyniadau addysgol yn cael eu goruchwyllo gan y tîm gwella ysgolion o fewn y Gyfarwyddiaeth. Byddant yn gweithio gyda'i gilydd i ddeall effaith y newidiadau cyllid a sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal.
- Gofynnwyd ymhellach am gynlluniau i fynd i'r afael â'r risg bosibl o orflinder yn yr arweinyddiaeth, yn enwedig yng ngoleuni llai o gyllid ysgolion. Soniwyd bod gorflinder yn yr arweinyddiaeth yn bryder sy'n cael ei drafod yn aml gyda gwasanaethau gweithwyr. Nid yw disgwyl i effaith y newidiadau cyllid ar orflinder yn yr arweinyddiaeth fod yn uniongyrchol, ond bydd yn cael ei fonitro trwy drafodaethau rheolaidd ac ystadegau salwch. Nododd aelod nad yw gorflinder yn gyfyngedig i arweinyddiaeth ond yn berthnasol i athrawon dosbarth hefyd.

Crynodeb y Cadeirydd:

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Cabinet a'r swyddogion. Cynigiwyd yr adroddiad.

6. Y Cyfarfod Nesaf:

11eg Chwefror 2025.

The meeting ended at **12.57 pm**